



## CADETIAID awyr, môr a thir y Rhyl i gael anrhydeddau newydd.

Mae Cyngor Tref y Rhyl i gael ei Gadetiaid Maer ei hun, gan helpu i godi proffil y gwaith a wneir gan amrywiol grwpiau yn y dref.

Dros 12 mis, bydd y cadetiaid yn mynd yn swyddogol gyda maer pob blwyddyn i rai digwyddiadau dinesig.

Gan gadetiaid Môr y Rhyl fydd y teitl am y flwyddyn i ddod, gydag Is-gorpral Alan Hill yn mynd gyda'r maer presennol, y Cyngorydd Win Mullen-James.

Gwnaed y penodiadau mewn cyfarfod o'r cyngor a welodd hefyd deitl Rhyddfreniwr Anrhydeddus y Dref yn cael ei roi i un arall o wirfoddolwyr y Rhyl sy'n gweithio'n galed.

Mae Shirley Williams wedi treulio llawer o flynyddoedd yn gwirfoddoli, yn cefnogi ac yn gweithio gyda grwpiau ac elusennau'r Rhyl.

Meddai'r Cyngorydd Mullen-James: "Mae'r penodiadau newydd hyn yn cydnabod y gwaith a wneir gan wirfoddolwyr yn ein tref. Dyma'r tro cyntaf i ni gael swyddi cadetiaid anrhydeddus a bydd y swyddi'n symud rhwng y cadetiaid awyr, môr a thir bob blwyddyn, gan helpu i godi proffil y grwpiau yn yr ardal. "Dim ond y trydydd tro yw hwn i'r cyngor tref roi gwobr rhyddfreniwr y dref.



Mae gwaith Shirley yn y Rhyl yn pontio degawdau ac mae'n dal i chwarae rhan weithgar mewn cymaint o brosiectau, grwpiau a mudiadau. Mae'n ymroddedig iawn i'r dref ac yn wirioneddol haeddu'r teitl."

Ym 1967, daeth Shirley yn aelod pwyllgor Clwb Ieuenctid y Rhyl. Yn ddiweddarach, helpodd i sefydlu Undeb Credyd Arfordir Clwyd ac mae'n gwirfoddoli gyda nifer o fudiadau gan gynnwys cangen Clwyd Sefydliad y Galon Prydain, y Llent Brydeinig, Marie Curie, Bad Achub y Rhyl ac elusen Clefyd Niwronau Motor.

Shirley, a dderbyniodd dystysgrif ac arwyddlun y dref, a sefydlodd grŵp 'Glaslanciau'n Ailgylchu' sy'n cyfarfod unwaith y mis ac sy'n cefnogi grŵp gwirfoddol Caffi'r Gerddi Botanegol.

Yn 2017, cymerodd Shirley rôl cydgysylltydd gwirfoddol Canolfan Gyfiawnder Prestatyn (Llys Sirol y Rhyl gynt), sy'n codi arian ar gyfer achosion da lleol.

Ym 1991, daeth yn hebryngydd ym Mhafiliwn y Rhyl ac ym 1994 cafodd y fam i un ei phenodi fel hebryngydd yn Llys Sirol y Rhyl, swydd y mae ynddi o hyd.

Meddai Shirley: "Mae'n ffrainc ac yn anrhydedd i mi dderbyn teitl Rhyddfreniwr Anrhydeddus mewn tref rwyf wedi byw'n hapus iawn ynddi ers pan oeddwn yn ferch fach, a thref y medraf ddweud yn sicr yr wyf wedi bod yn rhan ohoni!

"Rwy'n gobeithio parhau gyda fy ngwaith elusennol a gwirfoddol am lawer o flynyddoedd eto, a diolch yn fawr iawn i'r cyngor tref am yr arwydd hyfryd hwn."

## Diwedd

